# COFNOD A BENDERFYNIADAU GWEITHREDOL

# Y CABINET

# DYDD MERCHER, 2 MEHEFIN 2021

**Cabinet Members:**

Cynghorwyr:: C.Clement-Williams, D.Jones, E.V.Latham, A.R.Lockyer, P.A.Rees, P.D.Richards, L.Jones a/ac M.Harvey

**Swyddogion yn bresennol:**

C.Griffiths, H.Jenkins, K.Jones, A.Jarrett, M.Shaw, C.Furlow-Harris, R.Headon, W.John, H.Jones, S.Rees, P.Walker C.Davies a/ac J.Woodman-Ralph

---

## 1. PENODI CADEIRYDD

Cytunwyd i benodi'r Cyng. E V Latham yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

## 2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 3. ADRODDIAD CEFN COED

**Penderfyniad:**

**Nodi'r canlynol:**

1. Y sefyllfa bresennol o ran cais grant Parc Rhanbarthol y Cymoedd ar gyfer Cefn Coed.

2. Bydd angen i'r amgueddfa aros ar gau nes bod y materion Iechyd a Diogelwch wedi'u datrys yn foddhaol.

3. Bod grŵp o randdeiliaid mewnol ac allanol yn cael ei sefydlu dan gadeiryddiaeth y Cyfarwyddwr Addysg, Hamdden a Dysgu Gydol Oes i nodi ffordd glir ymlaen ar gyfer dyfodol y safle.

4. Y dylid ceisio barn y 3 Aelod Lleol a'r Aelod Cabinet perthnasol ar adegau allweddol a bod adroddiadau'n cael eu cyflwyno i'r Pwyllgorau Craffu yn rheolaidd gyda diweddariadau.

## 4. ADRODDIAD BLYNYDDOL SAFONAU'R GYMRAEG

**Penderfyniad:**

Dylid nodi'r adroddiad.

## 5. ADRODDIAD ALLDRO REFENIW 2020-21

**Penderfyniadau:**

Ar ôl rhoi sylw dyledus i'r Asesiad Effaith Integredig:

1. Nodir y sefyllfa ariannol alldro ar gyfer 2020/2021 fel a fanylir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd;

2. Cymeradwyir trosglwyddiadau ychwanegol i'r cronfeydd wrth gefn ac allan ohonynt fel y nodir yn Atodiadau 3 a 4, gan arwain at y balansau cronfeydd wrth gefn penodol terfynol fel y nodir yn Atodiad 5, a'r Cronfeydd wrth gefn Cyffredinol fel y nodir yn Atodiad 6 i'r adroddiad a ddosbarthwyd.

3. Bydd adroddiad sy'n nodi'r cyllid a'r cynigion sydd ar gael ar gyfer buddsoddi mewn Adferiad COVID yn cael ei gomisiynu.

**Rheswm dros y penderfyniadau:**

Cytuno ar sefyllfa derfynol Alldro Refeniw ac Arian Wrth gefn Cronfa Gyffredinol y cyngor ar gyfer blwyddyn ariannol 2020/21.

**Rhoi Penderfyniadau ar Waith:**

Gyda chytundeb y Cadeirydd Craffu perthnasol, caiff y penderfyniadau eu rhoi ar waith ar unwaith (ac felly nid ydynt yn amodol ar y weithdrefn galw i mewn).

6. **ADRODDIAD ALLDRO CYFALAF 2020/21**

**Penderfyniad:**

Cymeradwyo sefyllfa alldro Rhaglen Gyfalaf 2020/2021.

**Rheswm dros y penderfyniad:**

Cytuno ar sefyllfa derfynol yr alldro cyfalaf ar gyfer 2020/2021.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Gyda chytundeb y Cadeirydd Craffu perthnasol, caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar unwaith (ac felly nid yw'n amodol ar weithdrefn galw i mewn).

7. **EITEMAU BRYS**

Oherwydd yr angen i ymdrin yn awr â'r materion a gynhwysir yng Nghofnodion Rhif 8 ac 11 isod, cytunodd y Cadeirydd y gellid eu trafod yng nghyfarfod heddiw fel eitemau brys yn unol ag Adran 100B (4) (b) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

**Rheswm:**

Oherwydd yr elfen amser.

8. **ADNEWYDDU CYTUNDEB MICROSOFT SOFTWARE ENTERPRISE**

**Penderfyniad:**

Cymeradwyo rhoi Dyfarniad Uniongyrchol ar gyfer adnewyddu Cytundeb Microsoft Enterprise dan Fframwaith yr NPS i gwmni SoftCat Public Limited.

**Rheswm dros y penderfyniad:**

Galluogi'r cyngor i gyflawni’i rwymedigaethau trwydded a chyflwyno'r isadeiledd i'w alluogi i gynnal ei fusnes.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Gyda chytundeb y Cadeirydd Craffu perthnasol, caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar unwaith (ac felly nid yw'n amodol ar y cyfnod galw i mewn o dridiau).

## 9. MYNEDIAD I GYFARFODYDD

**PENDERFYNWYD:** Yn unol â Rheoliad 4(3) a (5) Offeryn Statudol 2001 Rhif 2290, gwaherddir y cyhoedd ar gyfer yr eitem fusnes ganlynol a oedd yn debygol o gynnwys datgelu gwybodaeth eithriedig fel a ddiffinnir ym Mharagraff 14 Rhan 4 Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

## 10. CONTRACT Y GWASANAETH IEUENCTID YN Y DDALFA GYDA CBSCNPT

**Penderfyniad:**

Ar ôl rhoi sylw dyledus i'r asesiad effaith integredig, caiff Rheol 7 o’r Rheolau Gweithdrefn Contract ei heithrio a dylid rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Pennaeth Datblygu Dynol a Sefydliadol ymrwymo i gontract dwy flynedd gyda CAM Management Solutions Limited ar y telerau fel y nodir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

**Rheswm dros y penderfyniad:**

1. Mae'r system yn sail i drefniadau rheoli perfformiad a rheoli risg y cyngor.

2. Sicrhau parhad busnes, cynnal momentwm y cynnydd da a wnaed eisoes a datblygu’n trefniadau perfformiad a rheoli risg ymhellach (gan gynnwys rhoi'r cynllun gweithredu ar waith yn dilyn adolygiad Archwilio Cymru o'r System Rheoli Perfformiad Corfforaethol (CPMS). Byddai er lles pennaf cyngor i barhau â'r trefniadau system feddalwedd presennol sydd ar waith.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Gyda chytundeb y Cadeirydd Craffu perthnasol, caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar unwaith (ac felly nid yw'n amodol ar y cyfnod galw i mewn o dridiau).

## 11. CONTRACT GWASANAETH IEUENCTID YN Y DDALFA (YCS) GYDA CHYNGOR BWRDEISTREF SIROL CASTELL-NEDD PORT TALBOT, DRWY GARTREF DIOGEL I BLANT HILLSIDE (PARAGRAFF 14 YN EITHRIEDIG)

Cafodd yr Aelodau ddiweddariad llafar bod Llywodraeth Cymru wedi gofyn am amser ychwanegol i ystyried y sefyllfa, felly cafodd dyddiad yr hysbysiad a roddwyd ar y contract presennol ei ymestyn i 15 Mehefin 2021 fel y nodir isod.

**Penderfyniadau:**

1. Heb unrhyw sicrwydd gan y Gwasanaeth Ieuenctid yn y Ddalfa neu Lywodraeth Cymru, rhoddir rhybudd ar gontract presennol y Gwasanaeth Ieuenctid yn y Ddalfa o 15 Mehefin 2021. Bydd hyn yn galluogi trafodaethau pellach â'r Gwasanaeth Ieuenctid yn y Ddalfa a Llywodraeth Cymru cyn i'r contract ddod i ben ddiwedd mis Hydref 2021.

2. Rhoddir awdurdod dirprwyedig i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol, Iechyd a Thai i barhau â'r trafodaethau.

**Rheswm dros y penderfyniadau:**

Sicrhau nad yw preswylwyr Castell-nedd Port Talbot yn cael eu rhoi mewn sefyllfa lle gallai fod angen iddynt dalu costau Cartref Diogel i Blant Hillside. Mae hyn yn arbennig o bwysig o ystyried bod Llywodraeth Cymru wedi bod yn glir na all y cyngor weithredu i wneud elw o'r adnodd.

**Rhoi Penderfyniadau ar Waith:**

Gyda chytundeb y Cadeirydd Craffu perthnasol, caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar unwaith ac felly nid yw'n amodol ar y cyfnod galw i mewn o dridiau.

**CADEIRYDD**